Bwrdd Iechyd Prifysgol
Betsi Cadwaladr
University Health Board

Datganiad i'r Wasg / Press Release

I'W RYDDHAU AR UNWAITH/FOR IMMEDIATE RELEASE
Please scroll down for English

Dydd Mawrth 19 Gorffennaf 2011

Astudiaeth iechyd a lles yn cael ei chynnal o orsaf bŵer newydd arfaethedig yn Wylfa

Comisiynwyd astudiaeth i asesu effeithiau posibl datblygiad arfaethedig Gorsaf Ynni Niwclear Wylfa ar Ynys Môn ar iechyd a lles.

Sefydlwyd grŵp llywio i arwain yr astudiaeth, a elwir yn Asesu'r Effaith ar Iechyd, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o Iechyd Cyhoeddus Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Uned Gymorth Asesu Effaith ar Iechyd Cymru, Cyngor Sir Ynys Môn a Horizon Nuclear Power, y cwmni sy'n bwriadu adeiladu'r orsaf ynni niwclear newydd yn Wylfa.

Cynhaliwyd cyfarfod o'r Grŵp Llywio Asesu Effaith ar Iechyd ddydd Mawrth 12 Gorffennaf 2011 i drafod camau nesaf y broses asesu.

Andrew Jones, Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yw Cadeirydd Grŵp Llywio Asesu Effaith ar Iechyd Wylfa.

Meddai: "Cyfarfu'r grŵp llywio yr wythnos diwethaf i drafod camau nesaf yr Asesu'r Effaith ar Iechyd. Rydym ar gam cynnar yn y broses hon ar hyn o bryd a fydd yn golygu ymgysylltu â chymunedau lleol.

"Yn y broses asesu defnyddir technegau meintiol, ansoddol a chyfranogol i nodi effeithiau posibl y datblygiad arfaethedig ar iechyd, lles ac annhegwch o ran iechyd - effeithiau cadarnhaol yn ogystal â negyddol.

"Gwneir awgrymiadau adeiladol i liniaru unrhyw effeithiau negyddol posibl ar iechyd a nodir cyfleoedd i wneud y gorau o effeithiau a fydd o fudd i iechyd.

"Mae hon yn broses wyddonol gytbwys a gaiff ei defnyddio i helpu i wneud penderfyniadau. Ni fydd y broses yn gwneud penderfyniadau am y datblygiad ei hun."

Bydd yr adroddiad Asesu'r Effaith ar Iechyd llawn terfynol yn sail i'r broses ddatblygu a bydd Horizon Nuclear Power yn sicrhau ei fod ar gael i'r cyhoedd fel rhan o'i gais cynllunio a'i ymgynghoriad cyhoeddus.

Er nad yw Asesu'r Effaith ar Iechyd yn ofyniad statudol ar gyfer ceisiadau presennol yn ymwneud ag ynni, mae Horizon Nuclear Power wedi ymateb yn gadarnhaol i'r argymhellion ac mae wedi comisiynu'r astudiaeth er mwyn nodi unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol posibl ar iechyd ac, os bydd angen, i nodi camau i wella'r sefyllfa.

DIWEDD

Ar gyfer ymholiadau'r wasg yn ymwneud ag Asesu'r Effaith ar Iechyd cysylltwch â Jo Menzies (Iechyd Cyhoeddus Cymru) ar 02920 348755 (24 awr) neu jo.menzies@wales.nhs.uk

Ar gyfer ymholiadau'r wasg yn ymwneud â Horizon Nuclear Power cysylltwch â Claire Loveday ar 07717 300379 neu claire.loveday@horizonnuclearpower.com

Nodiadau i Olygyddion

Cwmni ynni o'r DU yw Horizon Nuclear Power sy'n datblygu cenhedlaeth newydd o orsafoedd ynni niwclear. Mae hon yn fenter ar y cyd rhwng E.ON UK a RWE npower, ac mae'r cwmni'n bwriadu darparu tua 6,000 MW o drydan drwy orsafoedd ynni niwclear newydd yn y DU erbyn 2025. Mae rhagor o wybodaeth am ddatblygiad arfaethedig y cwmni yn Wylfa ar Ynys Môn ar gael yn: http://www.horizonnuclearpower.com/wylfa

Mae gan Iechyd Cyhoeddus Cymru bedair swyddogaeth statudol:

- Darparu a rheoli amrywiaeth o wasanaethau iechyd cyhoeddus, diogelu iechyd, gwella gofal iechyd, ymgynghori ar iechyd, diogelu plant a labordai microbiolegol yn ogystal â gwasanaethau sy'n ymwneud â goruchwylio, atal a rheoli clefydau trosglwyddadwy;
- Datblygu a chynnal trefniadau er mwyn i wybodaeth am faterion sy'n ymwneud â diogelu a gwella iechyd yng Nghymru fod ar gael i'r cyhoedd; cynnal a chomisiynu ymchwil i faterion o'r fath yn ogystal â chyfrannu at ddarparu a datblygu hyfforddiant yn y meysydd hyn;

- Casglu, dadansoddi a dosbarthu gwybodaeth am iechyd pobl Cymru gan gynnwys yn enwedig achosion o ganser, nifer y marwolaethau a'r nifer sy'n goroesi; a pha mor gyffredin yw anomaleddau cynhenid; a
- Darparu, rheoli, monitro, gwerthuso ac ymchwilio i gyflyrau iechyd a sgrinio materion sy'n ymwneud ag iechyd.

www.iechydcyhoedduscymru.org

Tuesday 19 July 2011

Health and wellbeing study underway for proposed new power station at Wylfa

A study to assess any potential impacts on health and wellbeing has been commissioned as part of the proposed development of the new Wylfa Nuclear Power Station in Anglesey.

A steering group has been established to guide the study, known as a Health Impact Assessment, made up of representatives from Public Health Wales, Betsi Cadwaladr University Health Board, Welsh Government, Wales Health Impact Assessment Support Unit, Isle of Anglesey County Council and Horizon Nuclear Power, the company proposing to build the new power station at Wylfa.

A meeting of the Health Impact Assessment Steering Group took place on Tuesday 12 July 2011 to discuss the next steps of the assessment process.

Andrew Jones, Executive Director of Public Health for Betsi Cadwaladr University Health Board, is Chair of the Wylfa Health Impact Assessment Steering Group.

He said: "The steering group met last week to discuss the next steps of the Health Impact Assessment. We are currently at an early stage of this process which will involve engagement with local communities.

"The assessment process uses quantitative, qualitative and participatory techniques to identify the potential effects on health, wellbeing and health inequities – both positive and negative – of the proposed development.

"Constructive suggestions in mitigation of any potential negative health effects will be made and opportunities to maximise beneficial health effects will be identified.

"This is a balanced, scientific process which will be used to help inform decision-making. The process will not make decisions in relation to the development."

The full and final Health Impact Assessment report will inform the development process and will be made publicly available by Horizon Nuclear Power as part of its planning application and public consultation programme.

Although a Health Impact Assessment is not a statutory requirement for current energy applications, Horizon Nuclear Power has responded positively to recommendations and has commissioned the study to identify any positive and potentially negative health effects and, if needed, appropriate measures for improvement.

ENDS

For press enquiries relating to the Health Impact Assessment please contact Jo Menzies (Public Health Wales) on 02920 348755 (24 hours) or jo.menzies@wales.nhs.uk

For press enquiries relating to Horizon Nuclear power please contact Claire Loveday on 07717 300379 or claire.loveday@horizonnuclearpower.com

Notes to Editors

Horizon Nuclear Power is a UK energy company developing a new generation of nuclear power stations. A joint venture between E.ON UK and RWE npower, the company plans to deliver around 6,000 MW of new nuclear power station capacity in the UK by 2025. More information on the company's proposed development at Wylfa on Anglesey is available at: http://www.horizonnuclearpower.com/wylfa

Public Health Wales has four statutory functions:

- To provide and manage a range of public health, health protection, healthcare improvement, health advisory, child protection and microbiological laboratory services and services relating to the surveillance, prevention and control of communicable diseases;
- To develop and maintain arrangements for making information about matters related to the protection and improvement of health in Wales available to the public; to undertake and commission research into such matters and to contribute to the provision and development of training in such matters;
- To undertake the systematic collection, analysis and dissemination of information about the health of the people of Wales in particular including cancer incidence, mortality and survival; and prevalence of congenital anomalies; and
- To provide, manage, monitor, evaluate and conduct research into screening of health conditions and screening of health related matters.

www.publichealthwales.org